| **Cofnodion cyfarfod 10fed o Orffennaf 2024 a gynhaliwyd yn y Ganolfan am 7 yn yr hwyr** | |
|---|---|
| **PRESENNOL** | |
| Gwilym Evans (Cadeirydd) | Iola Owen |
| Rhys ap Gwilym | Helen Sharp |
| Emlyn Baylis | Nia Jones |
| Louise Price | Bethan Holding |
| Kevin Jones | |

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU** | |
| | Agorwyd y cyfarfod yn ffurfiol gan y Cynghorydd Gwilym Evans y Cadeirydd. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y canlynol, Cynghorydd Kim Jones, Cynghorydd Trystan Thomas a Cynghorydd Iwan Harding a Llinos Pritchard. | **CLERC** |
| 1.1 | Ni chafwyd cyfranogiad gan y cyhoedd. | |
| 1.2 | Cais i Amrywio Trwydded Eiddo - Becws Melyn, Llanberis - trafodwyd y mater a phenderfynwyd gwrthwynebu'r cais ar sail bod ddim cydymffurfiaeth wedi bod i'r drwydded bresennol a bod cwynion wedi dod i law i sŵn oedd yn amharu ar drigolion cyfagos, hefyd mae agor y drysau yn golygu bod y sŵn yn i'w glywed yn fwy. | |
| I.3 | Iechyd a Diogelwch - roedd y Cynghorydd Emlyn Baylis wedi mynychu cwrs iechyd a diogelwch yn ddiweddar a dywedodd ei fod wedi dod yn ymwybodol ellach bod rhai materion angen sylw ar y Ganolfan yn enwedig am yr ysgol feithrin. Diolchwyd iddo am ei sylwadau a fe ddywedyd byddai'r ysgol feithrin yn derbyn ymweliad can Arolygaeth Gofal Cymru. | |
| 1.4 | Traffig a pharcio mewn cilfannau - dywedyd nad oedd ymateb Cyngor Gwynedd i'r broblem ddim yn foddhaol. Penderfynwyd bod y Clerc yn anfon gohebiaeth ar y mater eto. | |
| 1.5 | Digwyddiadau Coed y Ddol/Rasys - LLP - roedd cwyn wedi ei dderbyn gan aelod o'r cyhoedd bod digwyddiadau ar Coed y Ddol yn defnyddio Coed y Ddol i barcio cerbydau yn lle'r r ardal benodedig a bod sbwriel wedi ei adael. Y Clerc i ddod a'r mater i sylw Parc Padarn. | |
| 1.6 | Llyn Padarn - rhoddwyd y mater hwn ar agenda'r Cyngor gan y Cynghorydd Kevin Jones, trafodwyd y mater a chafwyd gwybodaeth gyfredol am y chwyn. Trafodwyd os byddai modd gosod rhyw fath o rwystr o amgylch y chwyn ond bwriad Parc Padarn yw gosod matiau hesian ar ei ben i'w suddo ac yna bydd yn pydru. | |
| 1.7 | Toiledau - roedd cwynion wedi dod i lawr bod y toiledau yn cau yn fuan yn y pnawniau a bod y gwasanaeth ddim ar gael. Y Clerc i anfon at yr adran Bwrdeistrefol yng Nghyngor Gwynedd i | |

CYNGOR
CYMUNED
LLANBERIS A NANT PERIS

| | | |
|---|---|---|
| | ofyn beth yw'r gwasanaeth a gynigir am y ffi flynyddol mae'r Cyngor Cymuned yn ei dalu. | |
| 1.8 | Cyflwr ymylon ffordd i Lanberis - cafwyd gwynion bod cyflwr y wal a'r palmentydd ar y ffordd i mewn i'r pentref yn warthus gyda gordyfiant - trafodwyd y mater a phenderfynwyd bod y Clerc yn anfon at Gyngor Gwynedd. | |
| 1.9 | Cysgodfan Bws Maes Padarn - mae gwaith adfer ei angen ar do'r gysgodfan. Penderfynwyd bod y Clerc yn chwilio a dyfynbris i wneud y gwaith. | |
| 1.10 | Derbyniwyd cais gan Grŵp Datblygu Llanberis am arian i archebu taflenni. Trafodwyd mater a phenderfynwyd bod £2500 o arian yn ormod ond byddai'r cyngor yn barod i gyfrannu hanner. Yn anffodus dywedodd y Cynghorydd Emlyn Baylis nad oedd gan y Grŵp yr arian i dalu hyd yn oed hanner y gost ac nad oeddynt wedi gallu codi baneri ar hyd y pentref eleni chwaith. Penderfynodd y Cyngor i dalu am godi baneri i'r pentref. | |
| **2.0** | **DATGAN DIDDORDEB** | |
| | Dim | |
| **3.0** | **CADARNHAU GWARIANT A CHYFLWYNO ADRODDIAD ARIANNOL** | |
| 3.1 | Cyflwynwyd gwariant ac adroddiad ariannol mis Mehefin 2024 a'u derbyn. | |
| **4.0** | **CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI** | |
| 4.1 | Cadarnhawyd cofnodion mis Mehefin2024. | |
| 4.2 | Bin sbwriel Cae Chware Lan Llyn - mae hwn mewn llaw. Bin ailgylchu Coed y Ddol, mae cyfarfod safle wedi ei drefnu gyda Swyddog Parc Padarn a Swyddog o'r adran fwrdeistrefol er mwyn dod i benderfyniad ynglŷn â lle i osod y bin. | |
| 4.3 | Cerflun Coffa'r Chwarelwyr - gwaith mynd yn ei flaen i drio goresgyn problemau gwifrau a gwasanaethau tanddaearol ar y lleoliad arfaethedig. | **CLERC** |
| 4.4 | Panel HBO - dim dilyniant ers cyfarfod y panel a derbyn cofnodion mis diwethaf. | **CLERC** |
| 4.5 | Campfa Awyr Agored - nid oes datblygiad wedi bod ar y mater ers tro ond mae cyfarfod safle wedi ei drefnu ar gyfer penderfynu ar leoliad. | |
| 4.6 | Menter/Partneriaeth Llanberis - bydd angen trefnu gwahodd grwpiau a chymdeithasau'r pentref i gyfarfod arbennig. Cynghorydd Rhys ap Gwilym a'r Clerc i weithredu ar hyn. | **RhaG/CLERC** |
| 4.7 | Ardal Rhes Victoria a Rhes Efrog - dywedodd y Clerc ei bod wedi bod yn trafod y mater gyda Chyngor Gwynedd a bod trafodaethau wedi bod rhyngddynt a Parc Cenedlaethol i wneud gwaith ar lwybr 9 a 10 er mwyn galluogi cerddwyr y Wyddfa i ddefnyddio'r llwybrau yn enwedig yn y nos. Gobeithir defnyddio'r | |

| | | |
|---|---|---|
| | llwybr sydd yn cyrraedd y giât, byddai hyn hefyd yn rhoi llonyddwch i dai penceunant. | |
| **5.0** | **PRIFFYRDD A LLWYBRAU CYHOEDDUS** | |
| 5.1 | Dim gwybodaeth bellach wedi ei dderbyn i | **CLERC** |
| **6.0** | **Y FYNWENT** | |
| 6.1 | Mae gadael gwastraff tu ôl i wal yn parhau - penderfynwyd gofyn i'r Contractwr torri gwaith os byddai yn gallu dymchwel y wal a cludo'r brics oddi yno. | **CLERC** |
| **7.0** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
| | Dim | |
| **8.0** | **GWEITHGAREDDAU CYMUNEDOL** | |
| 8.1 | Fe gafwyd adborth bod Hwyl yr Haf wedi bod yn llwyddiannus ac efallai blwyddyn nesaf byddai ei gychwyn yn hwyrach yn well. | |
| | Angen i bwyllgor digwyddiadau drefnu cyfarfod ar gyfer trefnu digwyddiad y Nadolig a hefyd penderfynu ar y math o Goeden ar gyfer yr ŵyl. | |
| **9.0** | **ADRODDIADAU CYRFF ALLANOL** | |
| | Dim Adroddiad | |
| **Llofnod:** | Glynn T. Evans. | **Dyddiad : 11/9/24** |